



Tyfu Canolbarth Cymru
Cyfarfod Partneriaeth - Cofnodion
Siambwr y Cyngor, Neuadd Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa.
Aberaeron, SA46 0PA
Dydd Mawrth, 26 Ebrill 2016
14:00-16:30pm


Presennol


Y Cyngorydd Barry Thomas, Arweinydd Cyngor Sir Powys (**Cadeirydd**)
Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (**Is-gadeirydd**)
Susan Bolter, Cyngor Sir Powys
Carl Cooper, PAVO
Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion
Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys
Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion
Huw Morgan, Cyngor Sir Ceredigion
Mike Shaw, Cyngor Sir Ceredigion
Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru a Chadeirydd Siambwr
Fasnach Canolbarth Cymru
Ann Watkin, Llywodraeth Cymru
Meurig Thomas, Llywodraeth Cymru
Y Cyngorydd Avril York, Daliwr Portffolio Adfywio a Chynllunio, Cyngor Sir Powys
Y Cyngorydd Gareth Lloyd - Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Economaidd a
Datblygu Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion
Dr Sue Fish, Cydweithrediaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru
Paul Evans, Cyngor Sir Powys
Dr. Rhodri Llwyd Morgan - Prifysgol Aberystwyth University
Jane Lewis, Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol
Jenni Thomas, Cyngor Sir Powys
Jacqui Weatherburn, Pennaeth, Coleg Ceredigion
Arwyn Watkins, Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol
Steve Cass - Grŵp Castell-nedd Port Talbot

Yn bresennol drwy wahoddiad

Sue Morgan (SM), Pennaeth Entrepreneuriaeth, Llywodraeth Cymru (14:00-15:30)
Carys Roberts (CR), Uwch Reolwr Entrepreneuriaeth Ieuenctid (14:00-15:30)
Seren Jones, Cyngor Sir Ceredigion - Cofnodwr
Sonia Davies, Cyngor Sir Ceredigion - Cofnodwr

1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
	Y Cyngorydd Barry Thomas fydd yn cadeirio Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru am y 12 mis. Estynnodd goeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwyno pawb.	

	<p>Cafwyd ymddiheuriadau gan:</p> <p>Barry Liles - Coleg Sir Gâr Steve Doodson - Grŵp Castell-nedd Port Talbot Mared Rand Jones - FUW Doug Hughes - Hughes Architects Jeremy Patterson - Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys Hazel Lloyd-Lubran - Prif Weithredwr, CAVO James Harrison - TSR Surveyors Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Amgylcheddol, Asedau, Trafnidiaeth a Rheoli Carbon, Cyngor Sir Ceredigion</p> <p>Awgrymodd y Cadeirydd y dylid creu cardiau enwau ar gyfer pawb sy'n bresennol yng nghyfarfodydd yn y dyfodol i hwyluso cyfeirio at y sawl sy'n cyfrannu.</p> <p>Gweithredu: Cardiau enwau i'w creu ar gyfer cyfarfod nesaf Partneriaeth TCC sydd i'w gynnal ar 29 Gorffennaf, 2016.</p>	
2.	<p><u>Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr, 2016</u></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr, 2016 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. (Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ac eiliwyd gan Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru).</p> <p><u>Materion yn codi o'r cofnodion</u></p> <p><u>Tudalen 3 - Diweddariad Trafnidiaeth Strategol Cwmpas Ffonau Symudol yng Nghanolbarth Cymru</u></p> <p>Rhoddodd MS wybod i'r Bartneriaeth fod ymateb wedi cael ei dderbyn gan Ed Vaizey, y Gweinidog Gwladol dros Ddiwylliant a'r Economi Ddigidol, a chyfeiriwyd yn benodol at baragraff tri o'r ymateb sy'n darllen fel a ganlyn:</p> <p><i>"Bydd y rhwymedigaethau trwydded yn creu cwmpas gwell ar draws y DU, gan gynnwys Ceredigion a Phowys, ac erbyn diwedd 2017 disgwylir i'r 'mannau dim gwasanaeth' leihau yng Ngheredigion o 14% i lawr i 5% o'r ehangdir, ac ym Mhowys bydd yn lleihau o 10% i 4% o'r ehangdir. O ran 'mannau dim gwasanaeth' rhannol, disgwylir iddynt leihau yng Ngheredigion o 42% i lawr i 23.5% o'r ehangdir, ac ym Mhowys byddant yn lleihau o 40% i 22% o'r ehangdir. Mae'r gweithredwyr rhwydwaith ffôn symudol yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol, ac nid yw cynlluniau cyflwyno ar lefel cyfeiriad manwl a data cwmpas cysylltiedig ar gael i'r cyhoedd."</i></p>	<p>Gweinyddol</p>  <p>Minutes of Meeting 8th Jan...</p>

	<p>(Man dim gwasanaeth - signal gan un gweithredwr rhwydwaith symudol yn unig).</p> <p>Nodwyd nad yw cynlluniau cyflwyno ar lefel cyfeiriad manwl ar gael i'r cyhoedd. Bydd gwybodaeth ynghylch sut i gael y ffigurau hynny ar gael erbyn diwedd 2017.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i MS am y diweddariad.</p>	
3.	<p>Ymgysylltu Rhanbarthol - Fframwaith Gweithredu (Atodiad B)</p> <p>Cyflwynodd MS y Fframwaith Gweithredu drafft newydd i aelodau'r Bartneriaeth. Dechreuodd MS drwy ddiolch i aelodau'r Bartneriaeth am eu cydweithrediad a'u penderfyniad mawr wrth lunio'r drafft terfynol hwn. Dywedodd MS yn wyneb y gwaith a wnaed ar y ddogfen hon mae'n ddogfen 'symudol' erbyn hyn ar gyfer perchnogaeth a gwneud yr achos dros yr ardal.</p> <p>Tynnodd MS sylw at y ffaith bod un cyfraniad wedi cael ei dderbyn yn hwyr iawn ac, o ganlyniad, nid yw wedi cael ei gynnwys yn y fframwaith eto, ond bydd hyn yn cael sylw yn fuan.</p> <p>Mae ynni adnewyddadwy wedi cael ei nodi fel cyfle ar raddfa fwy a llai yn yr ardal. Mae syniadau diddorol yn dod i'r amlwg ynghylch datblygu agenda i ddatgarboneiddio'r economi a datblygu seilwaith i gefnogi ceir trydan.</p> <p>Estynnodd y Cynghorydd AY ddiolch i MS am gynhyrchu'r drafft wedi'i ddiweddarau heddiw, a nodwyd, â brwdfrydedd, bod y dogfennau wedi gwella'n sylweddol ers cyfarfod y Bartneriaeth yn Ionawr 2016.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd AY yr hoffai weld ychydig bach mwy o bwyslais ar fusnesau ym Mhowys a Cheredigion yn y Cynllun, busnesau sydd am ehangu neu sy'n chwilio am safle newydd, mewn ymgais i gadw busnesau o fewn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.</p> <p>Nododd AW fod ceisiadau yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd i WEFO gan Lywodraeth Cymru a fydd yn rhoi sylw i safleoedd strategol dros dro, ond y byddai hynny ar gyfer nifer fach o leoliadau yn unig. Mae dau gais arall hefyd yn cael eu hystyried gyda chydweithwyr WEFO sef:-</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Datblygiadau Eiddo Pwrpasol; 2) Adeiladau parod. (Nododd AW y byddai'n edrych i mewn i'r sefyllfa ac yn dod yn ôl i'r Bartneriaeth) <p>Cyfeiriodd y Cynghorydd AY hefyd at flaenoriaeth 4. Dywedodd y Cynghorydd AY fod problem gyda'r sylfaen sgiliau yn yr ardal ar hyn o bryd. Mae angen cael cynllun ar gyfer prentisiaethau lefel uchel,</p>	 <p>Enc: B MTD Wales Framework for ...</p>

<p>hyfforddiant, gwaith a chyfateb anghenion sgiliau gyda busnesau trwy'r ardal gyfan.</p> <p>Ailadroddodd y Cynghorydd EaG bwysigrwydd cadw sgiliau yng Nghanolbarth Cymru, ac ymddangosai fod consensws cyffredinol bod Canolbarth Cymru yn parhau i gael ei wasanaethu'n waeth o'i gymharu â'r cyfleoedd sydd ar gael mewn rhannau eraill o Gymru.</p> <p>Dywedodd CC fod nifer o fentrau yn dod i'r amlwg trwy Gynllun Datblygu'r Gweithlu a ategir gan gyllid UE sy'n cynnwys gwirfoddoli, a nododd bod PAVO yn arwain at Brosiect Dwyrain Cymru sy'n cynnwys pum ardal awdurdod lleol yn canolbwyntio ar y llwybr i gyflogaeth. Dywedodd CC y byddai'n braf gweld hyn wedi'i adlewyrchu yn y cynllun.</p> <p>Dywedodd JW fod angen cofio bod rhaid i ddarparwyr fel Colegau Addysg Bellach gyflwyno manylion yn seiliedig ar gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.</p> <p>Dywedodd EaG fod rhaid i ni gael gwybodaeth gywir am ofynion y farchnad lafur yn yr ardal. Nodwyd y bu newid ffocws yn ddiweddar gyda'r Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol, a gobeithio ein bod mewn sefyllfa gryfach erbyn hyn a bod yr wybodaeth gywir gennym i ddelio ag anghenion yr ardal.</p> <p>Mae'n rhaid i bobl ifanc yng Nghymru wybod bod prentisiaethau a chyfleoedd ar gael iddynt, gan sicrhau bod modd cadw hyfforddiant yng Nghymru yr un pryd.</p> <p>Nododd PG y bydd y fframwaith drafft, pan gaiff ei gwblhau a gan ystyried y sylwadau a wnaed heddiw, yn gyfle i gydweithio â Llywodraeth Cymru, ac ychwanegodd fod angen i'r Fframwaith ddatblygu i fod yn ddogfen ddeniadol bellach. Nodwyd hefyd bod Cynhadledd y Gororau yn cael ei chynnal yfory (27 Ebrill 2016) ac y byddai nifer o aelodau TCC yn bresennol, ac y byddai cyfle yno i ymgysylltu â phartneriaid a chyflwyno'r weledigaeth.</p> <p>Roedd aelodau'r Bartneriaeth yn hapus gyda'r ffordd ymlaen, fel y nodir uchod, a gofynnodd y Cadeirydd i MS weithredu, gan sicrhau bod y ddogfen yn cael ei chyfieithu ac yn cael ei rhannu ag aelodau'r TCC cyn i'r ddogfen gael ei chymeradwyo'n derfynol gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i MS am y diweddariad a'r wybodaeth.</p> <p>Gweithredu: MS i droi'r Fframwaith yn un ddogfen, gan sicrhau y caiff ei chyfieithu a'i chylchredeg i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac aelodau TCC ar gyfer sylwadau cyn ei chymeradwyo.</p>	<p>MS</p>
---	------------------



Overview of REAP in
Wales and progress t

4.

Rhaglen Gyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol ac Entrepreneuriaeth Ieuenctid (Cyflwyniad)

Croesawodd y Cadeirydd Sue Morgan (SM), Pennaeth Entrepreneuriaeth, a Carys Roberts (CR), Uwch Reolwr Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru i'r cyfarfod i roi cyflwyniadau ar Raglen Gyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol ac Entrepreneuriaeth Ieuenctid. (Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i atodi er gwybodaeth.)

Rhaglen Gyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol

Rhoddodd SM drosolwg byr o'r Rhaglen.

Roedd y pwyntiau allweddol yn canolbwyntio ar:-

- Nod y Rhaglen
- Pwy yw'r tîm
- System y fframwaith
- Proses y rhaglen
- Cynnydd y rhaglen

Dilynwyd hyn gyda chyfle i ofyn cwestiynau a thrafod.

Rhoddwyd pwyslais ar y ffaith y dylai'r rhaglen hon gael ei rhaedru i lawr i lefel rhanbarth TCC a sefyllfaoedd gwledig hefyd. Ni ddylid anwybyddu ardal Canolbarth Cymru! Cytunodd SM a nododd mai grwpiau fel TCC ddylai benderfynu beth yr hoffent i'r rhaglen ganolbwyntio arno. Dywedodd SM eu bod nhw'n ceisio bod mor gynhwysol â phosibl a bod yr wybodaeth a ddarperir yn seiliedig ar dystiolaeth ac nid rhaglen ymchwil.



Er gwybodaeth, esboniodd SM y bydd y prosiect yn ariannu myfyriwr PhD i ystyried y maes gwaith hwn, a bod hynny allan i dendr ar hyn o bryd. Teitl y PhD fydd 'Datblygu sefyllfa entrepreneuriaid arloesol ar gyfer Cymru'.


Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid


Cafwyd cyflwyniad gan CR.


Roedd y pwyntiau allweddol yn canolbwyntio ar:-

- Nod y Strategaeth
- Ymgysylltu, Ymrymuso a Galluogi Cynulleidfaoedd (5-25 oed)
- Nod y Strategaeth
- Busnes Cymru - Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid
- Partneriaid galluogi

	<ul style="list-style-type: none"> • Yr effaith <p>Dilynwyd hyn gyda chyfle i ofyn cwestiynau a thrafod.</p> <p>Dyweddodd CR y byddai'n croesawu trafodaethau pellach â phartneriaid ar ba gyfleoedd y gallai'r strategaeth eu cynnig i ardal Canolbarth Cymru. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i gynnal digwyddiad yng Nghanolbarth Cymru ac annog pobl ifanc a rhanddeiliaid ehangach i fynychu.</p> <p>Croesawodd Partneriaeth TCC y syniad hwn a chytunodd y byddai'n fuddiol i gydwethio er mwyn deall anghenion yr ardal.</p> <p>Pwysleisiodd MS y byddai'n fuddiol i'r syniad hwn gael ei drafod a'i ddatblygu mewn cyfarfod o'r Gweithgor.</p> <p>Gweithredu: Digwyddiad Strategaeth Ymgysylltu Ieuencid ar gyfer ardal Canolbarth Cymru i'w drafod yn y Gweithgor.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i SM a CR am eu cyflwyniadau i'r Bartneriaeth heddiw.</p>	MS								
5.	<p>Ymgysylltu rhanbarthol Canolbarth Cymru; prawfesur rhanbarthol o weithrediadau a gyllidir gan Ewrop (Atodiad C)</p> <p>Cyflwynodd MS Adroddiad Diweddar Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru i aelodau'r Bartneriaeth (copi ohono wedi'i atodi er gwybodaeth). Esboniodd MS fod yr adroddiad yn nodi chwe phrosiect gwahanol sydd ar y gweill ar draws yr ardal. Nododd MS fod y grŵp wedi drafftio rhai ymatebion ar ran yr ardal a'u bod nhw wedi'u nodi fesul prosiect ar ail dudalen yr adroddiad, ac mae angen i Bartneriaeth TCC eu cytuno. (Gweler yr adroddiad atodedig am ragor o wybodaeth). Aeth MS â'r aelodau trwy bob argymhelliad yn fanwl.</p> <p>Estynnodd y Cynghorydd AY ddiolch i MS am ei ddiweddarid heddiw a phwysleisiodd fod angen bod mor greadigol â phosibl yn y gwaith hwn a sicrhau'r fantais fwyaf ar gyfer yr ardal TCC gyfan.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i MS gylchredeg yr argymhellion, ynghyd ag amserlen ar gyfer pob argymhelliad, i Bartneriaeth TCC i sicrhau bod pob un o'r aelodau yn hapus.</p> <p>Gweithredu: Yr aelodau i gytuno:</p> <p>1. ar yr argymhellion ar y gweithrediadau canlynol a'u bod yn cael eu hanfon i'r buddiolwyr perthnasol a WEFO:</p> <table border="1" data-bbox="327 1921 1200 2020"> <tr> <td>Ardal</td> <td></td> <td>Gweithrediad</td> <td>Prif Fuddiolwr</td> </tr> <tr> <td>Gorllewin Cymru a'r</td> <td>Cronfa Gymdeithasol</td> <td>Tyfu Gweithluoedd</td> <td>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant</td> </tr> </table>	Ardal		Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Gorllewin Cymru a'r	Cronfa Gymdeithasol	Tyfu Gweithluoedd	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	 
Ardal		Gweithrediad	Prif Fuddiolwr							
Gorllewin Cymru a'r	Cronfa Gymdeithasol	Tyfu Gweithluoedd	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant							

		Cymoedd	Ewrop	trwy Ddysgu a Datblygu	
		Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	ERDF	Cronfa Busnes Cymru	Cyllid Cymru
		Dwyrain Cymru	ERDF	Cronfa Busnes Cymru	Cyllid Cymru
		Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	ERDF	Cronfa Tyfu Busnes Cymdeithasol	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
		Dwyrain Cymru	ERDF	Cronfa Tyfu Busnes Cymdeithasol	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
		Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	ERDF	Beacon +	Prifysgol Aberystwyth
		<p>2. Yn y dyfodol, ac i hwyluso bwydo yn ôl i WEFO, bydd argymhellion y Gweithgor Traws-sector yn cael eu cylchredeg yn syth i Bartneriaeth TCC i sicrhau bod cyfle gan aelodau i wneud sylwadau a/neu gytuno o fewn cyfnod penodol. Yn dilyn hyn, bydd Cadeirydd y Bartneriaeth yn awdurdodi cyflwyno'r sylwadau a bydd cyfarfod dilynol y Bartneriaeth yn cael adroddiad ar benderfyniadau dirprwyedig y Cadeirydd yn y cyfnod blaenorol o dan yr awdurdod hwn.</p>			
6.	<p>Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol - Adroddiad SQW a'r Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd Jane Lewis (JL) i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar Adroddiad y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol a'r Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol - ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau. (Mae copi wedi'i atodi er gwybodaeth.)</p> <p>Roedd y pwyntiau allweddol yn canolbwyntio ar:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefndir y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol a'r angen i gael amser i newid • Pwrpas y Bartneriaeth • Gwerth ychwanegol y Bartneriaeth ar hyn o bryd • Yr angen i gael menter sy'n debyg i'r Bartneriaeth • Gweithgareddau ar gyfer y Bartneriaeth 2020 • Egwyddorion yn y dyfodol • Argymhellion a swyddogaethau craidd • Aelodau Bwrdd newydd eu penodi o amryw o sectorau <p>Cyfeiriwyd yn benodol at sleid 19 'Ymateb i'r argymhellion - Bwrdd newydd wedi'i benodi gydag enwebiadau o'r sectorau canlynol'. Nodwyd nad oedd unrhyw gynrychiolydd gan TCC ar y Bwrdd ar hyn o bryd a chroesawodd JL drafodaeth o ddirprwyo cynrychiolydd</p>	 <p>RLP%20Strategic%20Review%20%20pre</p>			

	<p>o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Nodwyd y byddai cyfarfod agoriadol y Bwrdd yn cael ei gynnal ar 4 Mai 2016. Trafodwyd y mater.</p> <p>Cytunwyd yng nghyfarfod Partneriaeth TCC heddiw y byddai MS o Gyngor Sir Ceredigion yn cynrychioli Partneriaeth TCC ar y Bwrdd.</p> <p>Byddai trafodaethau pellach yn dilyn i ystyried a ddylai Paul Evans, Cyngor Sir Powys, eistedd ar y Grŵp Cyfeirio Cyflogwyr Strategol. JL i drafod ymhellach â Chyngor Sir Powys.</p> <p>Cytunodd yr holl aelodau y byddai'r ddau gynrychiolydd yn darparu cyfleoedd cadarnhaol ar ran Partneriaeth TCC.</p> <p>Nodwyd bod trafodaethau yn parhau i gael cynrychiolwyr o Brifysgol Abertawe, Caerfyrddin ac Aberystwyth.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i JL am ei gyflwyniad i'r Bartneriaeth.</p>	
7.	<p>Cydweithrediaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru (Cyflwyniad)</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd Dr Sue Fish (SF) i'r cyfarfod.</p> <p>Rhoddodd SF gyflwyniad i Gydweithrediaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru ac mae copi wedi'i atodi er gwybodaeth.</p> <p>Roedd y pwyntiau allweddol yn canolbwyntio ar:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefndir y Gydweithrediaeth • Y sefydliadau a gynrychiolir ar y Gydweithrediaeth ac ardal Cymru a gwmpasir • Y camau nesaf ar gyfer y Gydweithrediaeth • Rôl y Bwrdd Rheoli • Rôl y Gweithgor Gweithlu, Addysg a Hyfforddiant • Gweithgor Ymchwil • Gwybodaeth am y Fforwm Cyngori Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig • Y Ganolfan Rhagoriaeth newydd mewn Ymchwil Iechyd Gwledig a fydd yn gweld Prifysgol Aberystwyth yn gweithio'n agos â Chydweithrediaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i SF am y cyflwyniad heddiw gan ddatgan ei fod yn amser cyffrous a dylanwadol i'r Gydweithrediaeth.</p> <p>Cytunwyd i gael cyflwyniad pellach gan SF yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth ar 29 Gorffennaf 2016 ar:-</p>	 <p>MWHC - Growing Mid Wales April 2016.pdf</p> <p>SF Rheolwr Prosiect Cylch Caron CSC</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - er mwyn deall beth sy'n digwydd yn yr ardal; • Prosiect Cylch Caron - gan sicrhau presenoldeb gan gynrychiolydd Cyngor Sir Ceredigion Cylch Caron yn y cyfarfod nesaf. <p>Gweithredu: Cyflwyniadau yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth TCC ar:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - er mwyn deall beth sy'n digwydd yn yr ardal): • Prosiect Cylch Caron - cynrychiolydd Cyngor Sir Ceredigion i fynychu'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad ar y datblygiad. 	
8.	<p>Trafnidiaeth Strategol Chwarter 1 2016 Diweddariad (Atodiad Ch)</p> <p>Oherwydd prinder amser heddiw, nid oedd AE yn gallu rhoi diweddariad llawn i'r Bartneriaeth. Tynnodd AE sylw'r aelodau at y ffaith bod yr adroddiad (wedi'i atodi er gwybodaeth) yn nodi'r cynlluniau a strategaethau a gafodd eu rhyddhau gan Lywodraeth Cymru cyn cyfnod yr etholiad, ac mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o sut y maent yn cyfateb yn strategol ac yn rhanbarthol. Nododd AE y bu modd i'r ardal weithio gyda grŵp trafndiaeth Partneriaeth Menter Leol y Gororau a bod Canolbarth Cymru wedi tynnu sylw o fewn eu cynlluniau strategol i'n coridorau trafndiaeth ni yn ogystal ag ymgysylltu â Highways England ar ei Gynlluniau Twf Economaidd arfaethedig er mwyn cydnabod pwysigrwydd cysylltedd i Gymru.</p> <p>Nododd PG fod hwn yn gyfle gwych i wneud cysylltiadau, yn enwedig o orllewin i ddwyrain Cymru ac i'r gwrthwyneb, a denu busnesau dros y ffin.</p> <p>Nodwyd bod diweddariad cynhwysfawr a manwl wedi cael ei ddarparu gan AE yng nghyfarfod TraCC ddydd Gwener ddiwethaf.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i AE am adroddiad manwl a gofynnodd i ddiweddariad Trafnidiaeth Strategol AE gael ei roi yn gynnar ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf er mwyn cael digon o amser i AE roi diweddariad llawn i'r Bartneriaeth TCC.</p> <p>Gweithredu: Diweddariad Trafnidiaeth Strategol i'w roi fel un o'r eitemau cyntaf ar yr Agenda yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth ar 29 Gorffennaf 2016.</p>	 <p>Attachment ID Strategic Transp...</p> <p>Gweinyddol</p>
9.	<p>Unrhyw Fusnes Arall</p> <p>Nid oedd unrhyw eitemau ychwanegol i'w trafod heddiw.</p>	

10.	Dyddiad y cyfarfod nesaf: - Dydd Gwener, 29 Gorffennaf, 2016 am 10am, Swyddfeydd Cyngor Sir Powys , Llandrindod.	
-----	---	--

**Y CYNGHORYDD BARRY THOMAS
CADEIRYDD**